Archwilio Cymru
Audit Wales

# Addasiadau Tai

Cyngor Sir Fynwy

Mehefin 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 6 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 14 |
| Atodiadau | 15 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 16 |
| 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 18 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Oddeutu 15 mlynedd yn ôl, fel llawer o gynghorau eraill yng Nghymru, fe wnaeth Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor) drosglwyddo ei stoc dai i gymdeithasau tai er mwyn iddynt hwy ei rheoli. Golyga hyn fod y broses o ddarparu addasiadau i gartref yn wahanol i bobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo i gymdeithas dai o'i gymharu â pherchen-feddianwyr a phobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat.

2 Fe wnaethom ni fwrw golwg ar sut y mae'r Cyngor yn darparu addasiadau tai ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat. Fe wnaethom adolygu dull y Cyngor, y modd y mae'n darparu addasiadau a'i drefniadau monitro.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae addasiadau tai'n golygu newidiadau i gartref sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl symud o gwmpas neu gyflawni tasgau pob dydd. Gallant helpu i atal cwympiadau neu leihau neu leddfu'r angen am ofal ffurfiol a derbyniadau diangen i leoliadau gofal. Gallai enghreifftiau o addasiadau tai gynnwys:

- gosod rampiau neu ganllawiau;
- ychwanegu lifft risiau neu lifft cadair olwyn;
- gosod cawod â mynediad gwastad neu sedd gawod; a
- lledu drysau fel bod lle i gadeiriau olwyn fynd drwyddynt.

4 Mae'r Cyngor yn asesu anghenion pobl i benderfynu a ydynt yn gymwys i gael cymorth. Os ydynt, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i drefnu neu ddarparu gwasanaethau, megis addasiadau i gartrefi neu offer i helpu pobl agored i niwed i aros gartref.

5 Fe gyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar Addasiadau Tai yn 2018. Canfuom system orgymhleth a oedd yn atgyfnerthu anghydraddoldeb, yn hytrach nag ymdrin ag anghydraddoldeb, o ran darparu addasiadau.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

6 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth addasiadau tai ataliol effeithiol gyda threfniadau gweithrediadol cryf. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau i gryfhau goruchwyliaeth gorfforaethol a gwella defnydd strategol o ddata i ymdrin â risgiau o ran y gweithlu a rhoi cymorth i gynllunio ar gyfer y tymor hwy.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

7 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad. Dylai'r Cyngor gryfhau goruchwyliaeth gorfforaethol ar y gwasanaeth addasiadau tai trwy wella adroddiadau i aelodau ar berfformiad, gwerth ac effaith y gwasanaeth. Dylai hefyd ddatblygu cynllun y gweithlu i ddeall yn well beth yw'r risgiau i wydnwch a rhoi cymorth i ddarparu addasiadau mewn modd amserol.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i gwblhau Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn Sir Fynwy:

- 2023-24: 195 o ddiwrnodau
- 2024-25: 329 o ddiwrnodau
- 2025-26: 178 o ddiwrnodau

Nifer y Grantiau Addasu Sir Fynwy a gwblhawyd gan y Cyngor oedd:

- 60 yn 2023-24
- 37 yn 2024-25
- 55 yn 2025-26

Nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd gan y Cyngor oedd:

- 7 yn 2023-24
- 4 yn 2024-25
- 2 yn 2025-26

Nifer cyfunol y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Grantiau Addasu Sir Fynwy a gwblhawyd gan y Cyngor oedd:

- 67 yn 2023-24
- 41 yn 2024-25
- 57 yn 2025-26

Cost gyfartalog darparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl a Grant Addasu Sir Fynwy yn Sir Fynwy oedd:

- 2023-24: £ 13,268.52
- 2024-25: £ 7,366.73
- 2025-26: £ 6,069.16

Mae'r gyllideb graidd ar gyfer addasiadau tai wedi aros ar oddeutu £900,000 am nifer o flynyddoedd.

Dengys ymatebion i arolygon boddhad cwsmeriaid addasiadau tai'r Cyngor a anfonwyd rhwng 2025 a 2026:

- Fod 100% o ymatebwyr naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a roddwyd gan swyddogion y Cyngor;
- Bod 88% o ymatebwyr naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn ar faint o amser a gymerodd i ddarparu'r addasiad;
- Bod 73% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf bod eu hansawdd bywyd wedi gwella;
- Bod 69% o ymatebwyr yn cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a/neu annibynnol.

# Ein canfyddiadau

## Yr hyn sy'n gweithio'n dda

### Dull integredig o ddarparu addasiadau tai

8 Mae gan y Cyngor drefniadau cryf ar gyfer darparu addasiadau tai, ac mae symud y tîm addasiadau tai o'r Gwasanaeth Tai i mewn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod o gymorth yn hynny o beth. Mae hyn wedi cryfhau cysylltiadau â gwasanaethau ataliol ehangach. Mae staff ac arweinwyr yn meddwl am addasiadau fel gwasanaeth ataliol sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol, byw gydag urddas a dychwelyd adref yn ddiogel o'r ysbyty neu o leoliad gofal.

9 Mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd da o'i fodel Aseswyr Dibynadwy.[1] O dan y model hwn, mae Gofal a Thrwsio'n asesu ac yn gosod mân addasiadau sy'n costio hyd at £1,000. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau cydio, rampiau bychain a chanllawiau cerdded. Mae defnyddio Gofal a Thrwsio fel hyn yn lleihau'r pwysau ar therapyddion galwedigaethol a syrfewyr ac mae o gymorth i osod addasiadau risg-isel mewn modd amserol.

10 Yn ymarferol, mae timau gofal cymdeithasol yn cydweithio'n agos i ddarparu addasiadau tai. Mae staff wedi'u cydleoli gyda thimau iechyd ac, mewn rhai ardaloedd, maent wedi'u lleoli ar safleoedd iechyd. Mae hyn yn cynnwys Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol, y Tîm Adnoddau Cymunedol a staff Therapi Galwedigaethol mewn ysbytai. Gall yr holl Therapyddion Galwedigaethol atgyfeirio defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer mân addasiadau ac addasiadau mawr. Mae'r trefniadau hyn yn helpu pobl i gael y cymorth iawn ar yr amser iawn.

---

[1] Rhywun sy'n gweithio ar ran nifer o sefydliadau a chyda'u caniatâd i gynnal asesiad o anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol yw Asesydd Dibynadwy.

## Y broses ymgeisio ac asesu

11 Mae'r Cyngor yn defnyddio profion modd ar gyfer addasiadau mwy trwy'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG). Mae achosion nad ydynt yn seiliedig ar brawf modd yn cael eu prosesu trwy raglen Grant Addasiadau Sir Fynwy (MAG). Mae hyn yn cynnig proses symlach ar gyfer addasiadau llai. Mae'r Cyngor yn cefnogi pobl gyda'u ceisiadau ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd gydag ymgeiswyr i egluro'r gofynion, monitro cynnydd a sicrhau eu bod yn deall y broses.

12 Mae gan y Cyngor ddull eglur o asesu ceisiadau. Mae'r gwasanaeth therapi galwedigaethol yn asesu anghenion pobl ac yn penderfynu pa addasiadau sy'n gymwys. Wedyn mae'n atgyfeirio achosion at y tîm byw'n gynaliadwy. Wedyn mae therapyddion galwedigaethol a syrfëwr y Cyngor yn asesu a yw'r cartref yn addas ar gyfer yr addasiad a argymhellir.

13 Nid oes gan y Cyngor unrhyw stoc tai cyngor, ond mae'n darparu gwybodaeth eglur a phroses ymgeisio hygyrch ar gyfer landlordiaid preifat. Mae ei ddogfen Amodau'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn egluro cymhwystra ar gyfer cymorth ariannol a gall landlordiaid wneud cais gan ddefnyddio ffurflen syml, gyda manylion cyswllt ar gyfer rhagor o gyngor.

14 Mae'r trefniadau hyn yn helpu i wneud y gwasanaeth yn haws cael mynediad ato. Maent hefyd yn ategu ceisiadau amserol ac yn helpu pobl i symud trwy'r broses gyda dealltwriaeth fwy eglur am ei chamau.

## Perfformiad a monitro gweithrediadol

15 Mae'r tîm addasiadau'n casglu data ar broffiliau defnyddwyr y gwasanaeth ac atgyfeiriadau. Cofnodir graddfeydd amser, costau a chynnydd gwaith hefyd, gan gynnwys canlyniadau boddhad cwsmeriaid. Defnyddir dangosfyrddau i dracio a rheoli'r gwaith hwn. Mae therapyddion galwedigaethol yn cofnodi anghenion ac amgylchiadau pobl trwy eu prosesau atgyfeirio ac asesu. Mae hyn yn cynnwys statws brys a ffactorau eraill i helpu i reoli a blaenoriaethu achosion.

16 Mae'r gwasanaeth addasiadau tai'n defnyddio cofnod Gwaith ar y Gweill a dangosfwrdd Excel mewnol i oruchwylio'r modd y darperir addasiadau. Mae'n adolygu perfformiad mewn cyfarfodydd chwarterol, a ategir gan adroddiadau misol gan y gwasanaeth Gofal a Thrwsio. Mae adolygu a thracio achosion yn rheolaidd yn helpu rheolwyr i ganfod achosion o oedi ac ymateb iddynt. Fodd bynnag, mae adroddiadau ar ddeilliannau ac effaith yn llai cyson ac nid ydynt yn cael eu rhannu'n eang.

17 Mae perfformiad gweithrediadol wedi gwella'n sylweddol ers 2024-25, gan adlewyrchu camau a gymerwyd i feithrin capasiti, tracio achosion yn well, a chynyddu'r gronfa o gontractwyr. Mae gan yr 'Amser ar gyfartaledd i gwblhau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl' darged o 180 o ddiwrnodau. Mae perfformiad yn erbyn y mesur hwn am y tair blynedd ddiwethaf fel a ganlyn:

- 195 o ddiwrnodau yn 2023–24
- 329 o ddiwrnodau yn 2024-25
- 178 o ddiwrnodau yn 2025-26

18 Mae therapyddion galwedigaethol a'r tîm addasiadau tai'n cwrdd yn rheolaidd i drafod addasiadau a rhannu gwersi. Mae'r gwersi hyn yn helpu i adnabod arfer da ac yn goleuo penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethu a darpariaeth yn y dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd yn cyfranogi yng Ngrŵp Adnewyddiadau ac Addasiadau De Cymru, sydd o gymorth i rannu gwersi gyda chynghorau eraill. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn rhoi golwg eglur i reolwyr ar berfformiad, maent o gymorth i weithredu mewn modd amserol lle daw oedi i'r amlwg, ac maent yn helpu'r gwasanaeth i wella dros amser.

## Ansawdd

19 Mae gan y Cyngor drefniadau i sicrhau ansawdd addasiadau tai. Ar ddechrau pob addasiad, mae'n nodi manylebau eglur yn y rhestr waith. Mae hyn yn rhoi cyfarwyddiadau eglur i gontractwyr ynghylch y gwaith y mae'n rhaid iddynt ei gwblhau. Mae syrfëwr y Cyngor yn cynnal ymweliadau cymeradwyo ac, ar gyfer gwaith y mae angen cymeradwyaeth ffurfiol iddo, megis estyniadau neu drosi garejis, mae staff Rheolaeth Adeiladu'n cymeradwyo'r manylebau gofynnol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod addasiadau'n cael eu cwblhau'n ddiogel ac i'r safon ofynnol.

20 Mae'r Cyngor yn rheoli contractwyr trwy ei God Ymddygiad. Mae hwn yn nodi'r disgwyliadau o ran ymddygiad, ansawdd ac ystyriaeth i breswylwyr. Mae'r Cod Ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ystyried unrhyw amgylchiadau sy'n gwneud meddianwyr yn agored i niwed a gwneud addasiadau rhesymol i'w dulliau gweithio. Gall hyn helpu i leihau annibendod ac arwain at lai o darfu ac mae'n dangos ystyriaeth i anghenion preswylwyr.

21 Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i geisio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar berfformiad contractwyr, gan gynnwys ansawdd gwaith, taclusrwydd a chadw amser. Mae hyn yn helpu i ategu diwylliant cryf o ansawdd ac atebolrwydd. Efallai na fydd contractwyr sy'n cael adborth gwael gan gleientiaid yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Mae hyn yn helpu i gynnal safonau ac yn annog contractwyr i ddarparu gwasanaeth da.

## Profiad defnyddwyr y gwasanaeth

22 Mae'r Cyngor yn defnyddio arolwg boddhad cwsmeriaid pan fo'n cwblhau gwaith a ariennir â Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Mae'r arolwg yn cynnwys ystod o gwestiynau i helpu i ddeall profiad defnyddiwr y gwasanaeth ar y cyfan. Mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn darparu adborth gwerthfawr ar sut y gwnaeth y gwasanaeth i gleientiaid deimlo.

23 Fe wnaethom fwrw golwg ar ymatebion i arolygon boddhad cwsmeriaid a anfonwyd rhwng 2025 a 2026. Maent yn dynodi bod defnyddwyr y gwasanaeth yn teimlo'u bod wedi cael cymorth, y gwrandawyd arnynt a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Fe wnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr ddynodi hefyd bod eu haddasiad wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Roedd hyn yn cynnwys ansawdd bywyd gwell, teimlo'n fwy diogel gartref a theimlo'n fwy hyderus neu annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn dadansoddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd nac yn ei chynnwys mewn adroddiadau ar berfformiad na diweddariadau corfforaethol. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli i ddangos effaith y gwasanaeth.

# Yr hyn y mae angen iddo wella

## Proffil corfforaethol a gwneud penderfyniadau strategol

24 Mae gan y gwasanaeth addasiadau tai broffil corfforaethol isel. Nid yw'r Cyngor yn cyfeirio ato'n eglur mewn dogfennau allweddol megis y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 neu'r Hunanasesiad Blynyddol 2024-25. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor ddangos sut y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at ei nodau strategol.

25 Mae adroddiadau ar berfformiad yn canolbwyntio'n fwy ar amseroedd darparu na deilliannau. Mae'r Cynllun Gwasanaeth Tai a Chymunedau 2025-28 yn cynnwys un mesur: yr amser ar gyfartaledd i gwblhau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae'r gwasanaeth yn cofnodi deilliannau i ddefnyddwyr, megis a wnaeth addasiad helpu rhywun i adael yr ysbyty neu gael gwared ar yr angen am becyn gofal. Fodd bynnag, er bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i reoli gweithrediadau o ddydd i ddydd, nid adroddir arni ar lefel gorfforaethol.

26 Gallai darlun mwy eglur o effaith ehangach y gwasanaeth helpu i ddangos gwerth am arian, gan gynnwys costau a arbedwyd ac a osgowyd yn gysylltiedig â hynny, a goleuo prosesau penderfynu strategol yn well.

## Cynllunio'r gweithlu a'r galw yn y dyfodol

27 Nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio ei ddata'n systematig i gynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol. Mae'n defnyddio data gweithrediadol i ddeall pwysau cyfredol ac mae hefyd wedi defnyddio'r wybodaeth hon mewn adroddiadau ar ofynion cyllido, megis adroddiad mis Mawrth 2025 i'r Cabinet Busnes ar y Rhaglen Addasiadau i Bobl Anabl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhan o ddull systematig o gynllunio ar gyfer anghenion y boblogaeth, mathau tebygol o addasiadau, deilliannau'r gwasanaeth nac effaith ataliol y gwasanaeth yn y dyfodol.

28 Mae’r gyllideb graidd ar gyfer addasiadau tai wedi aros ar oddeutu £900,000 am nifer o flynyddoedd, ac nid yw’n glir ai dyma’r lefel iawn o gyllid ar gyfer y galw yn y dyfodol. Mae’r Cyngor yn rheoli pwysau byrdymor trwy geisiadau am gyllid yn ystod y flwyddyn, llithriant cyfalaf a chyllid allanol sy’n hwyr yn cael ei gadarnhau. Mae’r trefniadau hyn yn ei gwneud yn anos cynllunio’n effeithiol ar gyfer darparu addasiadau, sicrhau bod capasiti’r gweithlu’n cyd-fynd â’r galw a rheoli’r gwasanaeth dros y tymor canolig a hwy.

29 Mae’r gwasanaeth addasiadau tai’n dibynnu ar dîm cyfyngedig o weithwyr proffesiynol medrus, gyda dim ond un syrfëwr tai. Mae’r capasiti ar gyfer gwaith syrfëwr yn gyfyngedig a gall greu tagfeydd o ran darparu gwasanaethau. Mae’r syrfëwr hefyd yn cefnogi gofynion eraill ar y gwasanaeth tai felly mae ei amser wedi’i rannu. Mae hyn yn creu risg amlwg i wydnwch. Mae’r Cyngor yn cydnabod hyn ac yn bwriadu recriwtio syrfëwr rhan-amser ychwanegol.

30 Nid oes gan y Cyngor gynllun y gweithlu ffurfiol ar gyfer y gwasanaeth addasiadau tai. Heb un, ni all asesu capasiti staffio yn awr ac yn y dyfodol mewn modd eglur, adnabod y sgiliau y mae eu hangen arno, na rhoi trefniadau olyniaeth effeithiol yn eu lle. Mae hyn yn cyfyngu ar ei allu i reoli gwasgbwyntiau a chynllunio ar gyfer newidiadau yn y galw yn y dyfodol.

## Deall perfformiad partneriaid

31 Nid y Cyngor sy’n gyfrifol am ddarparu addasiadau tai i bobl sy’n byw mewn cartrefi sy’n eiddo i gymdeithasau tai – rôl y cymdeithasau tai lleol yw hyn. Nid yw’r Cyngor yn monitro pa mor gyflym y mae cymdeithasau tai’n cwblhau’r gwaith na pha un a ydynt yn archwilio addasiadau a gwblhawyd. O ganlyniad, nid oes ganddo ddarlun llawn o amseroldeb ac ansawdd addasiadau ledled y sir.

# Argymhellion

Gyda'i gilydd, mae'r argymhellion hyn wedi'u bwriadu i sicrhau bod gwasanaeth ataliol sy'n cael effaith fawr, a ddarperir yn effeithiol ar lefel weithrediadol, hefyd yn cael ei oruchwylio'n strategol, yn un y darperir adnoddau ar ei gyfer mewn modd cynaliadwy ac yn cael ei adlewyrchu'n glir mewn prosesau penderfynu corfforaethol.

**Gwella goruchwyliaeth gorfforaethol ar addasiadau tai**

A1 Dylai'r Cyngor gynyddu goruchwyliaeth gorfforaethol ar y gwasanaeth addasiadau tai ac ymwybyddiaeth gorfforaethol ohono gan gynnwys cydweithio'n agos gyda thimau Gofal Cymdeithasol i asesu deilliannau ac effaith. Mae hyn yn cynnwys ehangu adroddiadau ar berfformiad a threfniadau i gyflwyno adroddiadau i aelodau i ddangos sut y mae gwaith yn dwyn gwerth am arian ac yn cyfrannu at y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol (**paragraffau 25 a 26**).

**Datblygu cynllun y gweithlu i ymateb i'r galw yn y dyfodol**

A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun y gweithlu ar gyfer y gwasanaeth addasiadau tai i ddeall ac ymdrin â risgiau i wydnwch a allai effeithio ar y gallu i ddarparu addasiadau'n amserol. Dylai'r cynllun gynnwys:

2.1 dealltwriaeth eglur am y galw am y gwasanaeth a chapasiti'r gwasanaeth yn y dyfodol a dadansoddiad eglur o hyn dros y tymor canolig a hir (**paragraffau 27 a 30**); a

2.2 dealltwriaeth eglur am yr adnoddau a dadansoddiad eglur o'r adnoddau y mae eu hangen i ateb y galw yn y dyfodol dros y tymor canolig a hir (**paragraffau 28 a 29**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaeth yr archwiliad ystyried a yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer addasiadau tai'n cynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i aros gartref. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dull y Cyngor, y modd y mae'n darparu addasiadau tai a'i drefniadau monitro.

Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys cyfweliadau gyda rhanddeiliaid eraill sy'n rhan o ddarparu addasiadau tai megis byrddau iechyd lleol, contractwyr, Gofal Ychwanegol a chymdeithasau tai. Ni wnaethom gysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i gael eu hadborth ar y gwasanaeth a gawsant ychwaith.

### Cwestiynau

Fe waeth yr archwiliad ddefnyddio'r cwestiynau lefel uchel canlynol:

- A oes gan y Cyngor ddull gwybodus ac eglur o ddarparu addasiadau tai sy'n cynorthwyo pobl i aros gartref?
- A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddull o ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro'r cynnydd a'r effaith wrth ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?

### Meini Prawf

Fe wnaethom ystyried yr adroddiad gan Archwilio Cymru yn 2018 ar Addasiadau Tai i ddatblygu'r meini prawf archwilio. Fe gawsom drafodaethau gyda chynghorau hefyd i gael rhagor o ddealltwriaeth am addasiadau tai.

# Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau a oedd yn ymwneud â'r broses addasiadau tai. Fe wnaethom gyfweld â swyddogion ac aelodau etholedig allweddol, ac fe gynhaliom ni grŵp ffocws gyda rheolwyr ac arweinwyr timau sy'n rhan o'r broses addasiadau tai.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

## Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth Grant Addasiadau Sir Fynwy (MAG)

1 Mae Grant Addasiadau Sir Fynwy'n talu am addasiadau bychain a chanolig nad yw'n ofynnol cael caniatâd adeiladu na chymeradwyaeth rheoliadau cynllunio ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys addasiadau megis lifftiau grisiau, rampiau a chawodydd â mynediad gwastad. Nid yw'r grant hwn yn seiliedig ar brawf modd, felly nid yw'n ddibynnol ar sefyllfa ariannol ymgeisydd.

## Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)

2 Mae Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn helpu i dalu am newidiadau mawr a phwysig i gartref fel bod preswylwyr yn gallu byw yno'n fwy diogel. Uchafswm y grant sydd ar gael tuag at addasiadau yw £36,000, ond mae'r swm a geir yn dibynnu ar amgylchiadau ariannol yr ymgeisydd.

3 Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gynghorau yng Nghymru i ddarparu'r grant yma ac mae'n berthnasol i berchen-feddianwyr, tenantiaid a landlordiaid.

## Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth werth am arian

4 Mae gwerth am arian yn golygu gwario arian mewn ffordd sy'n cael y canlyniadau gorau posibl am y gost. Cysylltir gwerth am arian fel arfer â darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Darbodaeth: prynu'r hyn y mae ei angen am y gost synhwyrol isaf i helpu i gyflawni deilliannau bwriadedig.

- Effeithlonrwydd: defnyddio adnoddau'n dda i helpu i gyflawni deilliannau bwriadedig.
- Effeithiolrwydd: cyflawni'r deilliannau bwriadedig ar gyfer y tymor byr a hwy.

5 Mae dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau i wirio a ydynt yn defnyddio arian ac adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

6 Rhaid i gynghorau feddwl am anghenion byrdymor a hirdymor wrth wneud penderfyniadau hefyd. Weithiau nid yr opsiwn uniongyrchol rhataf yw'r gwerth gorau am arian, ond yn hytrach yr un sy'n atal problemau mwy a chostau uwch yn ddiweddarach.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.